# Gofal Cymdeithasol a Thai Torfaen

# Gwasanaethau Oedolion

# Gwasanaethau ar gyfer pobl â nam ar eu golwg

**Pe byddai'n well gennych gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, megis ar dâp sain, disg cyfrifiadur, mewn Braille neu mewn iaith arall, ffoniwch y Gwasanaethau Cymdeithasol ar 01633 648989**

**2014**

*Cefnogol, teg, effeithiol…*

TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# A yw eich golwg *yn achosi anhawster i chi*?

***Gall eich golwg newid. Efallai y sylwch fod lliwiau'n ymddangos yn llai llachar, bod pethau y gwyddoch eu bod mewn llinell syth yn ymddangos yn gam, neu efallai y byddwch yn ei chael hi'n anodd mynd o gwmpas yn y tywyllwch. Mae'n fwy tebygol i'ch golwg newid os:***

- ***ydych yn ddiabetig, dros eich pwysau neu'n ysmygu***
- ***oes gennych chi, neu aelod o'ch teulu, glawcoma***
- ***ydych dros 65 oed***

**Os byddwch chi'n sylwi ar unrhyw newid yn eich golwg, fe ddylech ymweld â'ch meddyg teulu neu'ch optegydd. Efallai eich bod yn cael anhawster gweld i ddarllen, ysgrifennu neu ddweud yr amser, coginio eich prydau, gwneud paned o de neu groesi'r ffordd.**

**Mae'n rhaid talu am brawf llygad. Fodd bynnag, os ydych yn ateb 'ie' i unrhyw un o'r cwestiynau isod, mae gennych hawl i brawf llygad GIG yn rhad ac am ddim:**

- **A ydych yn 60 oed neu'n hŷn?**
- **A ydych o dan 16 oed, neu o dan 19 oed ac mewn addysg amser llawn?**
- **A ydych chi neu eich partner yn derbyn cymhorthdal incwm, credyd teulu, lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm, gwarant credyd pensiwn, ac â hawl neu wedi'ch enwi ar dystysgrif eithrio credyd treth y GIG, neu wedi'ch enwi ar dystysgrif HC2 ddilys?**
- **A oes gennych chi ddiabetes neu glawcoma?**
- **A ydych yn 40 oed neu'n hŷn gyda pherthynas agos â glawcoma?**
- **A yw offthalmolegydd ysbyty wedi dweud bod perygl i chi gael glawcoma?**

- **Ydych chi wedi'ch cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall?**
- **A oes gennych chi hawl i dalebau ar gyfer lensys cymhleth?**

**Efallai y byddwch hefyd yn gymwys i gael talebau ar gyfer sbectol. Gall eich asiantaeth budd-daliadau leol eich cynghori ynglŷn â hyn. Mae canfod pethau'n gynnar yn golygu eich bod yn derbyn triniaeth yn gynt ac mae gwell gobaith o arbed eich golwg.**

***Os cytunir nad yw'n bosibl cywiro eich golwg gyda sbectol neu lensys neu gyda mân lawdriniaeth megis llawdriniaeth cataract, mae'n bosibl y cewch eich cyfeirio at y Clinig Llygaid mewn ysbyty lle gall offthalmolegydd benderfynu a ydych yn gymwys i gael eich cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall*.**

## Beth yw cofrestru?

**Os ydych yn gymwys, ac yn dymuno cael eich cofrestru, bydd yr offthalmolegydd yn llenwi ffurflen *CVI* (gweler tudalen 9 am fwy o wybodaeth ynglŷn â chofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall). Fe gewch chi gopi o'r ffurflen hon, a bydd copïau yn cael eu hanfon at eich meddyg teulu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.**

**Fe ddaw gweithiwr cymdeithasol i gysylltiad â chi ac, os ydych yn dymuno, yn trefnu i ymweld â chi yn eich cartref i drefnu asesiad ar gyfer eich anghenion ac yn trefnu unrhyw wasanaethau a / neu gyfarpar addas ar eich cyfer.**

## Pam cofrestru?

**Mae'n rhaid i Ofal Cymdeithasol a Thai gadw cofrestr gyfoes o'r holl bobl ddall / rhannol ddall yn eu hardal.**
**Mae'r gofrestr hon yn ein helpu i gynllunio ein gwasanaethau yn fwy effeithiol. Mae'n bosibl i chi ddefnyddio prawf eich cofrestriad i hawlio budd-daliadau a gwasanaethau eraill. Mae'r gwasanaethau sydd ar gael yn dibynnu ar p'un a ydych wedi'ch cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall. Dyma rai enghreifftiau o'r hyn y gallai fod gennych hawl iddynt:**

- **Chwaraewr radio / casét / cd / usb yn rhad ac am ddim os ydych wedi'ch cofrestru'n ddall ac yn derbyn budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd.**
- **Bathodyn Car Pobl Anabl fel hawl os ydych wedi'ch cofrestru'n ddall**
- **Lwfans Gweini (os ydych dros 65 oed) a Lwfans Byw i'r Anabl (os ydych o dan 65 oed)**
- **Lwfans treth pobl ddall**

**Mae yna hefyd nifer o gyfleoedd yn Nhorfaen i bobl sy'n ddall neu'n rhannol ddall, a sefydlwyd mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys:**

- **Grŵp Ffitrwydd sy'n ymarfer yng Nghanolfan Hamdden Pont-y-pŵl**

**Clwb Cymdeithasol ar gyfer Pobl â Nam ar eu Golwg yng Nghanolfan Adnoddau Sight Cymru ym Mhont-y-pŵl**
**Grŵp cerdded hamddenol sy'n cyfarfod bob mis**
**Grŵp cymdeithasol ar gyfer Pobl Ifanc â Nam ar eu Golwg rhwng 18 – 50 oed**

**Bydd eich gweithiwr cymdeithasol yn gallu darparu manylion llawn yr holl gyfleoedd hyn.**

## Pwy all helpu?

**Yn dilyn asesiad cychwynnol gan weithiwr cymdeithasol, fe gewch chi ragor o gyngor a gwybodaeth. Gallai hyn gynnwys help i hawlio budd-daliadau ychwanegol. Efallai y cewch eich cyfeirio at y Swyddog Adsefydlu / Symudedd hefyd, a all roi cyngor i chi ar:**

- **Sut i fynd o gwmpas yn ddiogel, dan do ac yn yr awyr agored**
- **Sgiliau cyfathrebu**
- **Sgiliau coginio a bywyd beunyddiol**

**Gellir trefnu eich bod yn cael cyfle i ymweld â Chanolfan Adnoddau Sight Cymru ym Mhont-y-pŵl, sy'n cynnig offer arbenigol megis oriorau a chlociau llafar, poptai micro-don llafar, goleuadau tasg ac offer cegin amrywiol. Gall Sight Cymru hefyd gynnig cyngor ar**

**glybiau cymdeithasol a chwaraeon, gwersi Braille, profiad gwaith, cynlluniau cyfeillio a gwasanaethau cyfieithu.**

**Mae Gwasanaeth Nam ar y Golwg Gwent ar gael i helpu plant a phobl ifanc drwy ddarparu Braille neu fersiynau print mwy o'r gwaith. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu cymorth a chyngor i deuluoedd y plant a'r bobl ifanc sydd â nam ar eu golwg.**

## Cynllun Golwg Gwan Cymru

**Cymorth i bobl â golwg gwan.**

**Gellir helpu golwg gwan, y cyfeirir ato'n aml fel golwg rhannol, mewn llawer o achosion gydag ystod o gymhorthion ac offer gweld megis chwyddwydrau, sbectol a goleuadau.**

**Gall pobl â nam ar eu golwg sy'n byw yng Nghymru bellach gael y cymhorthion golwg priodol ar gyfer eu problemau golwg gan optometryddion achrededig ar y stryd fawr. Bydd yr optometrydd achrededig yn cynnal prawf llygad yn rhad ac am ddim ac yn asesu p'un a all cymhorthion a chyfarpar golwg gwan eich helpu chi. Yna bydd yr optometrydd yn benthyg unrhyw gymhorthion priodol i chi yn rhad ac am ddim.**

**Yr optometryddion sydd â chymwysterau arbennig i gynnal Asesiad Golwg Gwan yw:**

### Pont-y-pŵl

**Phillips Opticians Ffôn: 01495 763084**

**Wyman Opticians Ffôn: 01495 762072**

### Cwmbrân

**RJD Jenkins Opticians Ffôn: 01633 869777**

**The Optic Shop Ffôn: 01633 886846**

**RN Roberts & GL Rees Ffôn: 01633 866162**

# Cysylltiadau

**Gofal Cymdeithasol a Thai Torfaen
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl,
Torfaen
NP4 6YB
01633 648732**

**Sight Cymru (cyn Gymdeithas y Deillion Gwent)
Tŷ Bradbury, Adeiladau'r Parc
Pont-y-pŵl, Torfaen, NP3 6JH
Ffôn: 01495 763650
E-bost: postman@sightcymru.org.uk**

**Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall
Llys Trident, Heol East Moors
Caerdydd, CF 5TD
Ffôn: 02920 450440/02920 449550
E-bost: admin@rnib.org.uk**

**Vision in Wales (cyn Gyngor Cymru i'r Deillion) 2il Lawr,
Tŷ Hallinan,
22 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0TD
Ffôn: 02920 473954
E-bost: staff@wcb-ccd.org.uk**

**Gweithredu ar gyfer Pobl Ddall / Action for Blind
14-16 Verney Road
Llundain, SC16 3DZ
Ffôn: 0800 915 4666**

**Cymdeithas Cŵn Tywys y Deillion – Canolfan Caerdydd
Adeilad 3
Parc Busnes Dwyreiniol, Lôn Wern Fawr, Llaneirwg,
Caerdydd, CF3 5EA
Ffôn: 29 20839100
E-bost : swales@guidedogs.org.uk**

**Cymdeithas y Rhannol Ddall / The Partially Sighted Society**
**PO Box 322**
**Doncaster, DN1 2XA**
**Ffôn: (01302) 323132**

**Deafblind UK**
**National Centre for Deafblindness**
**John & Lucille van Geest Place**
**Cygnet Road, Hampton**
**Peterborough, PE7 8FD**
**Ffôn: 01733 358 100 (Llais / Testun)**
**E-bost: info@deafblind.org.uk**

**Sense Cymru**
**5 Raleigh Walk, Brigantine Place, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4LN**
**Ffôn: 029 2045 7641**
**Testun: 029 2046 4125**
**Ffacs: 029 2049 9644**
**E-bost: enquiries@sensecymru.org.uk**

**Gwasanaeth Nam ar y Golwg Gwent**
**Brecon House**
**Clos William Brown**
**Parc Busnes Llantarnam, Llantarnam**
**Cwmbrân, NP44 3AB**
**Ffôn: 01633 645 420**
**Ffacs: 01633 645 499**

**Y Gymdeithas Glawcoma Ryngwladol**
**Ffôn: 020 7737 3265**
**www.iga.org.uk**

**Cymdeithas y Clefyd Macwlaidd**
**Ffôn: 0845 2412041**
**www.maculardisease.org**

**Diabetes UK Cymru**
**Ffôn: 029 2066 8276**

**www.diabetes.org**

**Cymdeithas Retinitis Pigmentosa Prydain**
**Ffôn: 01224 702902**
**Rhwydwaith Nystagmus**
**Llinell Gymorth Insight**
**Ffôn: 01636 627004**

**Clefyd y Thyroid Llygaid**
**Ffôn: 01797 222 33**

**Gwasanaeth Sgrinio ar gyfer Retinopathi Diabetig Cymru**
**Ffôn: 01443 844244**

## Optegwyr

**Phillips Opticians**
**Lyon House, 5 Crane Street,**
**Pont-y-pŵl, NP4 6LY.**
**Ffôn: 01495 763084**

**RJD Jenkins Opticians**
**13 New Street, Pontnewydd,**
**Cwmbrân, NP44 1EF.**
**Ffôn: 01633 869777**

**RN Roberts**
**10 Fairwater Square, Cwmbrân,**
**NP44 4TA.**
**Ffôn: 01633 866162**

**The Optic Shop**

**1 The Parade**

**Cwmbrân NP44 1QR**

**Ffôn: 01633 886846**

**Specsavers Opticians**
**17 George Street, Pont-y-pŵl,**
**TORFAEN, NP4 6LR.**
**Ffôn: 01495 760536**

**Specsavers Opticians**
**9 Llewellyn Walk, Cwmbrân,**
**Torfaen, NP44 1YN.**
**Ffôn: 01633 877006**

**Vision Express**
**17 The Mall, Cwmbrân, NP44**
**1PX.**

**Ffôn: 01633 866399**

**<u>Vision Centre</u>**
**Asda Stores Ltd, Llewellyn Road, Cwmbrân, NP44 1UL.**
**Ffôn: 01633 645412**

**<u>Wyman Opticians</u>**
**127 Osborne Road, Pont-y-pŵl, NP4 6LT.**
**Ffôn: 01495 762072**

# Llwybr Tystysgrif Nam ar y Golwg (C.V.I.)

